# Llysgennad Gwirfoddoli

**Pwrpas y rôl:** Mae Llysgenhadon Gwirfoddoli yn ffrindiau allweddol i Amgueddfa Cymru ac yn dathlu ein gwaith. Maen nhw'n cydweithio gyda'r Amgueddfa ac yn ein cefnogi i wella ac ehangu ein gwasanaethau cymunedol.

Bydd Llysgenhadon yn:

- cyflwyno syniadau a chynnig adborth gyda'i gilydd
- mynychu digwyddiadau a sesiynau ychwanegol i hyrwyddo ein gwaith
- edrych ar ein gwaith o bersbectif newydd
- gallu mynychu cyfarfodydd a phwyllgorau amrywiol ar draws Amgueddfa Cymru (e.e. y Bwrdd Cymunedau, Arddangosfeydd ac ati) i gynrychioli eu hunain, eu cymunedau a'r gwirfoddolwyr

**Lleoliad:** Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd **neu** Amgueddfa Lechi Cymru **Oed:** 18+

**Byddai'r rôl hon yn addas os ydych chi:**

- yn barod i ymroi a rhannu eich profiad
- yn hapus i leisio eich barn yn adeiladol
- am ddyrchafu pobl eraill
- yn hapus i rannu eich brwdfrydedd dros Amgueddfa Cymru

Mae'r rôl yn agored i bawb, ond hoffwn glywed yn benodol gan oedolion ifanc, pobl y mwyafrif byd-eang, pobl niwroamrywiol a/neu siaradwyr Cymraeg.

**Ystyriaethau:** Gall hon fod yn rôl ad hoc. Fel rhan o'r rôl byddwch chi'n derbyn cyfrif e-bost Amgueddfa Cymru ac yn cysylltu â staff a gwirfoddolwyr eraill drwy Microsoft Teams a dros e-bost.

**Oriau ac Ymrwymiad:** Rydyn ni'n cyfarfod unwaith y Mis (heblaw am Awst a Rhagfyr) wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae natur y rôl yn golygu y gall gwirfoddolwyr ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, e.e. gwirfoddoli yn Niwrnod Treftadaeth y Senedd neu eistedd ar y Bwrdd Cymunedol sy'n cyfarfod bob 3 mis.

Diddordeb? E-bostiwch gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffoniwch (029) 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg a fydd hyn ddim yn arwain at oedi.

Y buddion i'n Llysgenhadon Gwirfoddoli:

- talu treuliau teithio
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd
- geirda ar gais
- gwahoddiad i ddigwyddiadau, a mynediad tu ôl i'r llenni
- chyfle i gwrdd â phobl newydd
- mynediad at ein platfform hyfforddi, a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y rôl.